

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Sir Gaerfyrddin

Mawrth 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Sir Gaerfyrddin

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Sir Gaerfyrddin ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

Adran 1: Gweledigaeth a nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Teimla UCAC fod yr adran hon yn wan, a hynny am y rhesymau canlynol:

- **Mae rhai o'r datganiadau'n amwys** e.e. "sichrau bod addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gael i bob plentyn...o fewn pellter teithio rhesymol..."; beth yn union a olygir wrth ddwyieithog yn y cyd-destun hwn, ac a fyddai sichrau bod ysgol ddwyieithog (ac nid cyfrwng Cymraeg) o fewn pellter rhesymol yn cyflawni'r pwynt hwn? Ni fyddai hynny'n dderbyniol gan UCAC. A oes gan yr Awdurdod ddiffiniad o beth yw pellter rhesymol?
- **Mae rhai o'r datganiadau'n amlinellu gofyniad sydd eisoes yn statudol, neu ddisgwyliad amlwg** e.e. "sichrau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu fel iaith gyntaf ac/neu ail iaith ar yr amserlen yn holl ysgolion y Sir".
- **Mae rhai o'r datganiadau'n rhy wan eu mynegiant, ac felly'n mynegi mwy o obaith nag o fwriad** e.e. "Disgwyliad bod dilyniant ieithyddol yn digwydd..."; "Disgwyliad i bob disgybl sydd wedi dilyn y rhaglen Gymraeg iaith gyntaf yn y cyfnod cynradd i barhau gyda'r rhaglen hon wrth drosglwyddo i'r uwchradd" – ni fydd hyn yn digwydd oni bai bod yr Awdurdod yn cymryd camau i sichrau ei fod yn digwydd, ac mae'n destun pryder na amlinellir y camau hynny fan hyn. Yn ogystal "Rhoi sylw i faterion gallu ieithyddol..." – beth mae hyn yn ei olygu o ran camau gweithredu penodol?
- **Nid oes yr un targed mesuradwy o ran niferoedd nac amserlen yn yr adran hon**

Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Cynyddu nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg: Nid oes gyfeiriad fan hyn at bolisi teithio'r Awdurdod, a sut y mae'r polisi hwnnw'n hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Nid oes 'chwaith, unrhyw darged mesuradwy ar gyfer y cynnydd a fwriedir.

Mabwysiadu dulliau cadarn o fesur y galw am ddarpariaeth gofal plant ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Gweithredu'n brydlon ar gasgliadau arolygon rhieni: Unwaith eto, nid oes unrhyw darged mesuradwy nac unrhyw ymrwymiad at gamau gweithredu penodol fan hyn. Cyfeirir at 'system drefnus o addysgu a hyfforddiant sy'n ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg' – ond ni ddisgrifir y dull o asesu'r galw, na phryd y gwnaed hynny diwethaf, beth oedd y canlyniadau na sut y bwriedir gweithredu ar sail y canfyddiadau. Nid yw canlyniadau'r cyfrifiad yn ategu'r datganiad yn yr adran hon fod Sir Gâr yn "cynyddu nifer y bobl o bob oed a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg" – byddai'n ddefnyddiol cael gweld y dystiolaeth dros ddatganiad o'r fath.

Sichrau bod cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig ystyriaeth lawn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: Nid yw'n ddigon i ddweud bod dull yr awdurdod lleol o ehangu'r ddarpariaeth 'yn un strategol' - hoffem weld disgrifiad o beth yn union yw'r strategaeth, y camau gweithredu, a'r amcanion. Cyfeirir at 'asesu cynladwyedd addysg mewn ysgolion bach' - ond nid oes unrhyw ddadansoddiad o'r sefyllfa bresennol, nac amlinelliad o amserlen na faint o ysgolion sydd dan sylw, na beth yw'r bwriad strategol y tu ôl i'r asesiad. Sonir am darged ysgolion gyda chymorth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd; hoffem gael gwybod faint o'r athrawon hyn sydd ar gael, faint o ysgolion y bwriedir eu targedu, beth yw natur y gefnogaeth a beth yw'r canlyniadau a ddisgwyliad. Nid ydym o'r farn bod y targed o 'gynnal y canran 70% ac uwch gan sichrau na fydd gostyngiad yn yr amser cyswllt' yn darged ddigon uchelgeisiol; bwriad y Cynllun Strategol yw gwella, ehangu a chryfhau'r ddarpariaeth, nid cynnal yn unig. Cyfeirir at ad-drefnu'r

pum ysgol, ond nid oes disgrifiad yma o gyfrwng iaith y tair canolfan newydd, na beth yw'r disgwyliadau a osodir o ran cydweithio gyda Choleg Sir Gâr; dywedir y bydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei fonitro, ond ni osodir unrhyw fath o feincnod na tharged ar gyfer datblygiad.

Cynyddu gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau trochi a chanolfannau i hwyrddyfodiaid: Mae'r gwaith a amlinellir yn yr adran hon yn ymddangos yn gadarnhaol. Hoffem ychwanegu dau awgrym, sef y gosodir targed o ran terfyn amser ar gyfer rhoi mynediad i'r canolfannau i hwyrddyfodiaid, er enghraifft, o fewn tymor i gyrraedd yr ysgol newydd. Teimlwn hefyd y dylai bod trefniadau yn eu lle ar gyfer tracio cynnydd a dilyniant y disgyblion hyn wedi iddynt elwa ar y cyrsiau dwys, er mwyn monitro effeithiolrwydd y rhaglen.

Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a sefydlu cyswllt â Chynllun Plant a Phobl Ifanc. Sicrhau ystyriaethau ar gyfer adnoddau ac ariannu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn blynyddoedd cynnar: Hoffem weld ymhelaethu ar y targed 'Cynnal cynadleddau Addysg Gymraeg' – faint, ble, i bwy, gyda pha amcan?

Darparu gwybodaeth i rieni/ofalwyr: Cyfeirir at roi gwybod am yr 'ysgol ddwyieithog agosaf' – mae angen rhoi gwybod am yr ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf yn ogystal, ac esbonio'r gwahaniaeth rhwng y ddau gwahanol fath o sefydliad o ran deilliannau. Cyfeirir at y ffaith fod polisi cludiant y sir yn berthnasol, ond ni ymhelaethir ar natur na chynnwys y polisi hwnnw, na sut y mae'n mynd ati i hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau dilyniant.

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Unwaith eto, rydym yn anfodlon â'r wybodaeth/dadansoddiad o'r sefyllfa gyfredol a ddarperir, ac yn canfod diffyg targedau mesuradwy a chamau gweithredu penodol a fydd yn arwain at wella a chryfhau'r ddarpariaeth.

Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf): Os mai 54.9% o ddisgyblion y sir sy'n derbyn addysg cynradd cyfrwng Cymraeg, mae'r ffigyrau ar gyfer y sawl sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ym Mlwyddyn 9 yn dorcalonnus o isel - gyda chwymp o tua 20%. Nid yw'n glir pam y gosodir targed ar gyfer 2012 (neu ai gwaelodlin ar gyfer gwelliant yw hwn? ac os felly, pam nid ffigwr 2013?), ond nid ydym o'r farn fod y targedau'n agos at fod yn ddigon uchelgeisiol, ac nid oes esboniad digonol o sut y bwriedir ymgyrraedd atynt. Gyda 7 o 12 ysgol uwchradd y sir yn gyfrwng Saesneg, neu'n gyfrwng Saesneg yn bennaf, a 2 arall ble mae modd osgoi'r Gymraeg yn gyfan gwbl heblaw am Gymraeg Ail Iaith fel pwnc, nid oes syndod bod y ffigyrau dilyniant mor isel. Cyfeirir at y ffaith fod Ysgol Bryngwyn yn cynnig rhan o'r cwricwlwm yn ddwyieithog i ddisgyblion Blwyddyn 7, ond ni ddisgrifir beth a olygir wrth 'ddwyieithog', na faint o bynciau a gynigir i faint o blant - na sut yr hyrwyddir y pynciau hyn i ddysgwyr a rhieni. Ni sonnir beth yw'r camau nesaf i symud y ddarpariaeth yn ei blaen. Ni fanylir ychwaith ar sut y bwriedir mynd ati i "sicrhau bod disgyblion yn parhau gyda rhaglenni iaith gyntaf ar ôl trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3".

Hyrwyddo cyfran uwch o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion dwyieithog: Nid yw "Gwella dilyniant ieithyddol ym mhob cyfnod addysg" yn darged mesuradwy, ac nid yw'n dderbyniol o ran lefel manylder. Yn yr un modd mae "Cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion penodol" yn fwriad clodwiw, ond mae angen manylion – pa ysgolion, faint o gynnydd, pa bynciau ar gyfer faint o ddisgyblion?

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

Yn gyffredinol mae'r adran hon yn cyfeirio at ba mor anodd yw gwella ar y niferoedd/canrannau cyfredol, ac yn dangos diffyg uchelgais a phenderfyniad o ran mynd ati i newid y sefyllfa, gydag absenoldeb targedau na chamau gweithredu manwl.

Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Ai canrannau o'r garfan gyfan yw'r rhain? Neu ganrannau o'r sawl a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf? Mae'r testun yn awgrymu mai'r ail o'r rhain sy'n wir - er mai canrannau o'r garfan gyfan y gofynnir amdanynt yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru; tybiwn y byddai'r ffigyrau hynny'n edrych yn dra gwahanol, a chryn dipyn yn is.

Deiliant 5: Rhagor o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith: Sylwn na nodwyd y ffigyrau ar gyfer y sawl sy'n sefyll Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn - gofynnir am y ffigyrau hynny gan ganllawiau Llywodraeth Cymru. Nodir bod y niferoedd yn gostwng yn flynyddol, ond yn y golofn 'tardegau' nodir 'Parhau i sicrhau canrannau isel o ddisgyblion yn sefyll Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr' - sy'n ymddangos fel gwrth-ddweud. Ni nodir pa gamau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd, na pha gamau y bwriedir eu cymryd i leihau'r niferoedd sy'n sefyll y Cwrs Byr yn hytrach na'r Cwrs Llawn.

Deiliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Dim sylw.

Deiliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Dim sylw.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) twitter.com/AthrawonCymru